# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu y Panel Craffu

## Achosion Trefn Gyhoeddus a Difrod Troseddol

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar achosion Ieuenctid

**Mehefin 2025**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ........................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.0 Cefndir, diben a methodoleg ........................................ 2

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel ... **Error! Bookmark not defined.**

4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ........................ 3

5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid) .... 3

6.0 Ystyried achosion ieuenctid ........................................ 3

7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ........................................ 6

8.0 Ethnigrwydd a Rhyw ........................................ 8

9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ........................................ 9

10.0 Camau gweithredu ........................................ 9

## 1.0 Trosolwg

Ar 18 Mehefin 2025, mynychodd aelodau o'r panel craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r llys gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion a saith achos ieuenctid yn ymwneud â throsedd Difrod Troseddol neu Drefn Gyhoeddus yr ymdriniwyd â hwy trwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â'r achosion ieuenctid.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel beth amheuaeth.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Gallaf _Carys Morgans (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y farn a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 18 Mehefin 2025.

Llofnod: 

Dyddiad: 29.09.2025

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith panel craffu'r datrysiad y tu allan i'r llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhoddwyd adborth i swyddogion
- Rhoddwyd adroddiadau Swyddfa'r Tîm Troseddau Ieuenctid i'r panel

## 5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid)

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro wrth adolygu'r achosion ieuenctid:

- Anghysondebau o ran datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu cyhoeddi ledled ardal Dyfed-Powys.
- Angen am Arweinydd Heddlu ar Blismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn.
- Gwarediadau Adferol Ieuenctid yn cael eu cyhoeddi'n anghywir.
- Galwad am wel dull/system i swyddogion wirio pa un ai a yw troseddwr honedig wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid o'r blaen.
- Mae angen i swyddogion ddefnyddio ac ymgysylltu â swyddogion y Tîm Troseddau Ieuenctid yn amlach.

## 6.0 Ystyried achosion Ieuenctid

Adolygodd aelodau'r panel saith achos yn ymwneud ag ieuenctid. O'r rhain, yn nhri achos cyhoeddwyd gweithgarwch dargyfeiriol, addysgol neu ymyrryd (canlyniad 22) a phedwar drwy ddatrysiad cymunedol ieuenctid.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Priodol | 4 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 1 |

**Achos 1**

Nododd y Panel nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw droseddau blaenorol, a bod y dioddefydd wedi derbyn iawndal ac ymddiheuriad. Gan hynny, penderfynwyd bod hwn yn ddefnydd priodol o warediad adferol ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Nodwyd bod y troseddwr honedig yn blentyn sy'n agored i niwed, ac er bod y difrod a achoswyd yn droseddol, priodol oedd cymryd ymagwedd a hysbysir gan drawma ac osgoi troseddoli plentyn sy'n agored i niwed. Gan hynny, daeth y Panel i'r casgliad bod y gwarediad adferol ieuenctid yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Nododd y Panel y drosedd lefel is a'r ymosodiad pellach ar y troseddwr honedig a ddigwyddodd. Cwestiynodd y Panel pa un ai a allai llythyr ymddygiad gwrthgymdeithasol fod wedi bod yn ganlyniad mwy priodol, ond nodwyd y gallai swyddogion fod wedi cael mwy o wybodaeth na'r hyn a ddarparwyd o fewn y ddogfennaeth. Gan hynny, cytunwyd bod y gwarediad adferol ieuenctid yn briodol, ond roedd gan y Panel amheuon mewn perthynas â'r manylion a ddarparwyd o fewn y cofnod.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 4**

Cydnabu bod y troseddwr honedig wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid o'r blaen. Gan hynny, nid oedd yn gymwys ar gyfer un arall, felly roedd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys yn amhriodol. Cafwyd trafodaeth ynghylch y broses o wirio pa un ai yw troseddwr honedig wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid o'r blaen. Nodwyd nad yw'r system Niche gyfredol o fewn Heddlu Dyfed-Powys yn

darparu'r wybodaeth ofynnol hon i swyddogion, felly awgrymodd y Panel y dylid archwilio i system newydd. Pwysleisiodd y cynrychiolydd o'r Tîm Troseddau Ieuenctid bwysigrwydd swyddogion yn defnyddio ac yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion y Tîm Troseddau Ieuenctid i atal achosion o warediadau adferol ieuenctid yn cael eu defnyddio'n amhriodol. Cafwyd trafodaeth bellach mewn perthynas â'r defnydd anghyson o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a gyhoeddir ledled ardal Dyfed-Powys. Galwodd y Panel ar Heddlu Dyfed-Powys i nodi arweinydd Heddlu ar gyfer plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn i helpu i ddatrys y defnydd anghyson ac amhriodol o ddatrysiadau y tu allan i'r llys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

Cam Gweithredu 1:

Y cadeirydd i godi pryderon y Panel am y defnydd anghyson ac amhriodol o warediadau adferol ieuenctid gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn benodol, y canlynol:

- Methiant system o ran hysbysu swyddogion pan mae troseddwr honedig eisoes wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid
- Diffyg arweinydd Heddlu ar gyfer Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn

### Achos 5

Canmolodd y Panel y camau a gymerwyd gan swyddogion SchoolBeat, gan nodi ei fod yn gadarnhaol eu bod wedi ymgysylltu â swyddogion y Tîm Troseddau Ieuenctid. Nododd y Panel nad oedd elfen droseddol gyda'r digwyddiad a bod y gweithgarwch dargyfeiriol/atal yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

### Achos 6

Cymharodd y Panel yr achos hwn ag achos 3, a oedd o natur debyg ond a oedd wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid. Pwysleisiodd y Panel yr angen am gysondeb eto wrth gyhoeddi gwarediadau y tu allan i'r llys a chefnogodd yr angen am arweinydd Heddlu ymhellach. O fewn yr achos hwn, cydnabu'r Panel bod llythyr rhybudd ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i gyhoeddi ond nid oedd hyn wedi'i nodi yn y ddogfennaeth. Gan hynny, daeth y Panel i'r casgliad bod canlyniad 22 yn briodol ond roedd ganddynt amheuon am eglurdeb y ddogfennaeth a ddarparwyd.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**


**Achos 7**

Nodwyd bod camgymeriad gweinyddol wedi digwydd, ac nid oedd yr achos hwn wedi'i gwblhau fel canlyniad ond fel canlyniad 16 *(nid yw'r dioddefydd yn cefnogi camau gweithredu gan yr heddlu, neu mae wedi tynnu ei gefnogaeth yn ôl*). Gan hynny, ystyriodd y Panel bod hwn yn ganlyniad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**


## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o achosion ieuenctid o droseddau Difrod Troseddol a Threfn Gyhoeddus a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau. Roedd y gwarediadau a ystyriwyd ym mis Mehefin 2024 yn cynnwys 100% Datrysiadau Cymunedol Ieuenctid. Ym mis Mehefin 2025, ystyriodd y Panel 43% gweithgarwch dargyfeiriol a 57% gwarediadau adferol ieuenctid.


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau'r panel o fis Mehefin 2024 i fis Mehefin 2025 yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel o ganlyniad yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Mehefin 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a Rhyw

Mae’r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhyw:




Mae’r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunan-asesiad y Sawl a Ddrwgdybir | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 4 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 4 |
| Anhysbys | 3 | 3 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.

## 9.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel yr hoffent ganolbwyntio ar gyhuddiadau Stelcio ac Aflonyddu yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau Gweithredu

| Dyddiad y cyfarfod | Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | Unigolyn cyfrifol |
|---|---|---|---|
| 18.06.2025 | OOCR – 158 | Y Cadeirydd i drafod pryderon y Panel am ddefnydd amhriodol ac anghyson o warediadau adferol ieuenctid gyda'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn benodol, y canlynol:<br>• Methiant system o ran hysbysu swyddogion pan mae troseddwr honedig eisoes wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid<br>• Diffyg arweinydd Heddlu ar gyfer Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn | SCHTh |